

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>Pwyllgor Safonau</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>13 Rhagfyr 2023</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>Protocol Datrysiad Lleol yn y Cynghorau Tref a Chymuned</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>Cyhoeddi fersiwn derfynol y Pwyllgor Safonau o'i Brotocol Datrysiad Lleol at ddefnydd y Cynghorau Tref a Chymuned</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol <a href="mailto:mwycs@ynysmon.llyw.cymru">mwycs@ynysmon.llyw.cymru</a></b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro <a href="mailto:lbxc@ynysmon.llyw.cymru">lbxc@ynysmon.llyw.cymru</a> 01248 752586</b>

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

- 1.1 Cafodd Protocol Datrysiad Lleol (PDLI) at ddefnydd Cynghorau Tref a Chymuned (CTCh) ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023. Er y cytunwyd mewn egwyddor i'r PDLI, roedd y Pwyllgor yn dymuno i waith pellach gael ei wneud cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi.
- 1.2 Trafodwyd y PDLI ymhellach mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ym mis Gorffennaf 2023, lle cytunwyd ar addasiadau.
- 1.3 Anfonwyd y fersiwn derfynol o'r PDLI at y Cynghorau Tref a Chymuned, fel rhan o Gylchlythyr y Pwyllgor Safonau at Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Hydref 2023. Mae copi o'r PDLI wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

## 2. Y PROTOCOL

- 2.1 Mae'r Protocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn **Atodiad 1** yn disgwyl i Brotocol Datrysiad Lleol Un Llais Cymru gael ei ddefnyddio gan Aelodau a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned os bydd yna unrhyw bryderon o ran ymddygiad neu gamymddwyn. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau cyfyngedig, bydd y Pwyllgor Safonau yn ymyrryd, drwy Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a dim ond mewn amgylchiadau lle mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried y byddai'n fanteisiol, lle mae adnoddau/capasiti yn caniatáu a bod y mater(ion) o dan sylw o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau, yn benodol eu bod yn ymwneud â materion ymddygiad. Rhaid i gais ddod gan Gadeirydd neu Glerc y Cyngor Tref a Chymuned neu yn dilyn datrysiad lleol CTCh.
- 2.2 Mae'r PDLI eisoes wedi'i rannu gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned fel rhan o Gylchlythyr y Pwyllgor Safonau. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau ystyried sut

mae'n bwriadu atgoffa Cynghorau Tref a Chymuned o'r Protocol Datrysiad Lleol yn y dyfodol.

2.3 Nid oes unrhyw geisiadau wedi eu gwneud o dan y Protocol Datrysiad Lleol hyd yma.

2.4 Mae trefniadau ar y gweill i'r pum aelod annibynnol a'r ddau gynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau i gyflawni hyfforddiant Cyfryngu er mwyn eu cynorthwyo mewn perthynas â'u dyletswyddau PDLI (petai'n ymwneud ag Aelodau Etholedig y Cyngor Sir neu Aelodau Cyngor Tref a Chymuned). Mae'r hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer Ionawr 2024 ac mae aelodau wedi eu hysbysu am y trefniadau.

### **3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r adroddiad.

3.2 Bod y pum aelod annibynnol a'r ddau gynrychiolydd o'r Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau yn mynychu'r hyfforddiant Cyfryngu ym mis Ionawr 2024.

DRAFT



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

## Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned

1. Mae'r Pwyllgor Safonau'n annog pob Cyngor Tref a Chymuned i fabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol [PDLI] ac mae'n awgrymu bod y cynghorau'n defnyddio'r PDLI a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru. Copi ar gael yma.
2. Os nad yw PDLI Un Llais Cymru'n addas neu os nad yw'n ymarferol, e.e. oherwydd bod y mater yn ymwneud gyda Chadeirydd neu Is-Gadeirydd y Cyngor Tref neu Gymuned, gellir gwneud cais i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau am gymorth anffurfiol. Rhaid i'r cais ddod gan:
  - 2.1 Gadeirydd y Cyngor Tref neu Gymuned;
  - 2.2 Clerc y Cyngor Tref neu Gymuned; neu
  - 2.3 Y Cyngor Tref neu Gymuned ei hun yn dilyn argymhelliad.
3. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried pob mater yn seiliedig ar y ffeithiau a bydd yn ymyrryd dim ond os yw'r Cadeirydd o'r farn:
  - 3.1 Y gallai'r ymyrraeth gan y Pwyllgor Safonau fod o fudd;
  - 3.2 Bod gan y Pwyllgor Safonau'r adnoddau a/neu'r capasiti i gynorthwyo; a
  - 3.3 Bod y mater yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Safonau, a'i fod yn ymwneud yn benodol ag ymddygiad. Ni fydd y Pwyllgor Safonau'n ymyrryd â materion llywodraethu o fewn Cynghorau Tref a Chymuned.

Mae gan y Cadeirydd y rhyddid llwyr i benderfynu a fydd y Pwyllgor Safonau'n ymyrryd ai peidio.

Bydd penderfyniad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n derfynol.

4. Bydd unrhyw broses a ddilynir gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn gwbl wirfoddol. Bydd y broses yn anffurfiol a bydd cyn lleied o waith papur â phosib.

*Wedi'i gyttuno gan y Pwyllgor Safonau – Mehefin 2023*